


11TH - 17TH HYDREF 2026
WWW.PRISONSWEEK.ORG
@PRISONSWEEK #WYTHNOSYCARCHARDAI
#PRISONSWEEK


PRISONSWEEK
A WEEK OF PRAYER



MATHEW 22:1-14

MAE GWAHODDIAD I BAWB

MAE 'NA LE I TI



MAE GWAHODDIAD I BAWB

MATHEW 22:1-14 “felly dyma’r gweision yn mynd allan i’r strydoedd a chasglu pawb allen nhw ddod o hyd iddyn nhw – y drwg a’r da. A llanwyd y neuadd briodas â gwesteion.”

Mae’r neges sydd wrth wraidd y ddameg hon gan Iesu, ac Wythnos y Carchardai 2026, yn cael ei chyfleu’n hyfryd gan N.T. Wright: Mae cariad Iesu yn ein cyrraedd ni ble bynnag rydyn ni, ond mae’n gwrthod ein gadael ni fel rydyn ni. Dymuniad Duw yw y byddai pawb yn ymateb i’w wahoddiad, y da a’r drwg. Mae’r da a’r drwg angen mantell cyfiawnder Duw. Nid oes yr un ohonom yn deilwng. Mae Duw yn chwilio amdanom er gwaethaf ein hymddygiad ac yn galw arnom i newid; diosg yr hen a gwisgo’r newydd.

Ac felly, rydyn ni’n eich gwahodd chi i ymateb i wahoddiad Duw, efallai am y tro cyntaf, efallai gyda dealltwriaeth newydd. Ymunwch â ni mewn gweddi yn ystod Wythnos y Carchardai eleni, gan weddio dros y rhai ar draws y system cyfiawnder troseddol: dioddefwyr troseddau, troseddwy’r rhai sydd yn y ddalfa, teuluoedd pawb sy’n cael eu heffeithio, y rhai sy’n gweithio yn y gwasanaeth prawf, carchardai, yr heddlu a’r llysoedd ac am gaplaniaid a’r rhai sy’n gweinyddu gofal a chyfiawnder mewn cymunedau.

DIWRNOD 1 – ANGLICANAIDD I GARCHARDAI Y GWIR BARCHEDIG RACHEL TREWEEK

Mae gan ‘pawb’ ystyr enfawr ac mae’n herio’r categorïau gor-symbl rydyn ni’n eu defnyddio ar gyfer pobl. Mae pob unigolyn yn unigryw, wedi ei greu ar lun a delw Duw i fyw mewn cyd-ddibyniaeth. Ac eto, mae pob un yn cael ei ddifetha gan berthnasoedd sy’n methu (gyda’i gilydd, gyda Duw a’r greadigaeth). Dim ond mewn gweledigaeth o drawsnewid Teyrnas Duw y gellir adfer perthnasoedd, a ffurfio cymuned lle mae pawb yn perthyn. Mae gwaith trawsnewidiol Duw wrth galon y ddameg hon ac mae’n ein gwahodd i ddod yn llunwyr arwyddion ar gyfer Teyrnas Duw, gyda thosturi, caredigrwydd a chariad (Colosiaid 3:12-15), gan gyfrannu at gymunedau cryfach lle mae pob un yn ffynnu.

Dduw croeso ac adferiad, newidia ni i edrych ar eraill gyda chalonnau gobeithiol a charedig, nid eu barnu. Gwisga ein calonnau â thosturi, caredigrwydd a chariad, a gwna ni’n barod i gyfrannu at gymunedau lle mae croeso i bawb a lle mae pawb yn gallu ffynnu, wrth i ni weddio i’th Deyrnas ddod ar y ddaear fel yn y nefoedd. Amen

DIWRNOD 2 – CYMDEITHAS Y BEIBL

Mae’r Beibl yn wahoddiad - galwad barhaus a chadarn i bawb. I bob un sydd yn y carchar; i bob un y mae’r system cyfiawnder troseddol yn effeithio arnyn nhw neu’r rhai sy’n gweithio ynddi. Mae drysau’r wledd yn agor, ac mae’r cod gwisg iachawdwriaeth yn glir ar y tudalennau. Rydyn ni’n dyheu am weld pawb yn y carchar yn darllen ac yn deall stori fawr y Beibl yn hyderus, ac yn cael eu newid fel unigolyn cyfan: y pen, y galon a’r dwylo. Mae cael gwahoddiad yn dangos bod rhywun yn eich gweld chi. Mae pwy oedden ni’n bwysig, ond mae pwy ydyn ni a phwy ydyn ni’n dod yng Nghrist yn bwysicach fyth.

Arglwydd, diolch am ein gwahodd at dy fwrdd a chwilio amdanom pan rydyn ni ar goll. Boed i’th Air wreiddio yn ein bywydau gyda’i negeseuon pwerus am gariad ac iachawdwriaeth. Ac i’r rhai sydd yn y carchar yn benodol, bod ganddyn nhw fynediad at Feibl a’u bod yn cael eu gwahodd i berthynas a chymuned. Rydyn ni’n dy foli am ddod yn agos atom wrth i ni ddod yn agos atat ti. Amen.

DIWRNOD 3 – Y CYFEIRLYFR CROESO

Dameg y wledd briodas yw curiad calon ein cenhadaeth. Pan wrthododd y ‘bobl deilwng’ y gwahoddiad, fe wnaeth y Brenin lenwi’r neuadd gyda phawb o’r strydoedd - y rhai ‘da a’r drwg’. Rhaid i’n heglwys! wneud yr un fath. Yn rhy aml, mae’r rhai sy’n gadael y carchar yn gweld bod drysau wedi cau, ond mae cymuned go iawn yn y Deyrnas yn cael ei diffinio gan letygarwch radical i’r rhai sydd ar y cyrion. Fodd bynnag, nid yw gwir groeso byth yn oddefol. Mae’r ‘dillad priodas’ yn cynrychioli’r trawsnewid a’r atebolrwydd a geir yn y gymuned. Drwy gofrestru ar gyfer y Cyfeiriadur Croeso, mae ein heglwys!n ymrwymo i wisgo gwesteion mewn diogelwch, cyfeillgarwch a gras, gan sicrhau nad dim ond dod i mewn maen nhw, ond eu bod yn perthyn o ddiifri ac yn ffynnu.


Arglwydd, gweddiwn y byddi di’n ysbrydoli pob eglwys i fod yn lleoedd o groeso radical lle gall pawb ddod o hyd i groeso diogel a chael eu trawsnewid gan dy Ysbryd a thyfu i fod yn debyg i Grist ein Harglwydd. Amen.

DIWRNOD 4 – CYFFORDD 42

Yn y ddameg hon, mae galwad y Brenin yn ymestyn i’r strydoedd, gan groesawu’r rhai sydd wedi teimlo eu bod wedi cael eu heithrio, eu hanwybyddu neu eu bod yn annheilwng. Yng Nghyffordd 42, mae hyn yn berthnasol: Nid yw gwahoddiad Duw yn seiliedig ar statws na hanes, ond ar haelioni sy’n chwyldroadol o gynhwysol. Mae’r alwad yn fwy na phresenoldeb - mae’n wahoddiad i gamu i mewn i hunaniaeth newydd sy’n seiliedig ar ras ac urddas. Rydyn ni’n gweld hyn bob dydd wrth i fywydau gael eu hailadeiladu ac wrth i bobl ddod o hyd i’w lle wrth y bwrdd. Cawn ein herio i ymgorffori’r croeso hwn, gan greu mannau lle mae newid yn bosibl ac mae gobaith yn cael ei ailddarganfod.

GWEDDI WYTHNOS Y CARCHARDAI

Arglwydd, rwy’t ti’n cynnig rhyddid i bawb. Gweddiwn dros y rhai sydd yn y carchar. Rho ddiwedd ar yr ofn a’r unigrwydd sy’n bodoli. Rho gymorth cariadus i’r carcharorion a’u teuluoedd a’u ffrindiau, staff y carchar a phawb sy’n gofalu. Gwella’r rhai sydd wedi cael eu hanafu gan weithredoedd pobl eraill, yn enwedig dioddefwyr troseddau. Helpa ni i faddau i’n gilydd, i weithredu’n gyfiawn, i garu trugaredd ac i gerdded yn ostyngedig gyda Christ yn ei gryfder a’i Ysbryd, yn awr ac o ddydd i ddydd. Amen.



Dad, diolch i ti fod dy wahoddiad yn ein cyrraedd ni waeth beth fo’n gorffennol. Maddau i ni pan anghofiwn rym dy efengyl, dyfnder dy gariad a doethineb dy air. Helpa ni i adlewyrchu dy galon groesawgar tuag at y rhai sy’n teimlo eu bod wedi eu heithrio neu eu hanghofio. Rho dosturi, dewrder a doethineb i ni gerdded ochr yn ochr ag eraill. Boed i fywydau gael eu hadfer, gobaith ei adnewyddu, ac i’th Deyrnas fod yn weladwy. Yn enw Iesu. Amen.

DIWRNOD 5 – YMDDIRIEDOLAETH LANGLEY

I’r rhai a oedd yn gyfarwydd â lletygarwch, roedd gwahoddiad y Brenin yn Mathew 22 yn ymddangos yn anhwylyus. Ond i’r rhai sydd wedi wynebu cael eu hallgáu, mae ei groeso yn newid eu bywydau. Mae Ymddiriedolaeth Langley yn ymgorffori hyn, gan helpu pobl ag euogfarnau i drawsnewid drwy barch a chariad Duw. Disgrifiodd un o’r trigolion, Pete, y cariad “anghredadwy” hwn fel hedyn mwstard. O fod wedi ei dderbyn, mae’n ei dywallt yn ôl i bobl eraill yn awr, gan eu gwylio’n trawsnewid o “chwiler” i rywbeth neis... Rydw i’n credu mewn gobaith... Rwy’n dal gafael ar y gair ‘gobaith’, oherwydd mae gobaith i bawb”. Dyma letygarwch y Deyrnas: gobaith sy’n adfer yr unigolyn, ac yna’n dechrau newid curiad calon y gymuned gyfan.

Dduw cariadus, diolchwn i Ti fod Dy letygarwch trawsnewidiol ar gael i bawb. Wrth i unigolion brofi dy gariad sy’n newid bywydau, boed i ni ddod yn rhai sy’n trawsnewid y cymunedau o’n cwmpas. Gad i’th letygarwch hael ddod â gobaith a newid i’r byd. Amen.

DIWRNOD 6 – GOFALU AM BOBL SY’N GADAEL CARCHAR (MYFYRDOD A GWEDDI RHYWUN SY’N GADAEL CARCHAR)

Mae dameg y wledd briodas yn datgelu Brenin sy’n anfon rownd ar ôl rownd o wahoddiadau. Er iddo gael ei wrthod, ei anwybyddu neu hyd yn oed ddioddef ymosodiadau, mae’n dyfalbarhau. Yn ei ras, mae’n ymestyn yr alwad i bawb - y ‘drwg’ a’r ‘da’ fel ei gilydd - gan adael y croeso olaf yn ei ddwylo Ef. Ni allwn ragweld pwy fydd yn derbyn gwahoddiad Iesu yn llawen na phwy fydd yn ei wrthod. Fodd bynnag, rhaid i ni beidio â rhoi’r gorau i’w ymestyn â chalon agored, gan ymddiried yn ei bŵer i drawsnewid bywydau yn union fel y mae wedi trawsnewid ein bywydau ein hunain.

Arglwydd, diolchaf i ti am dy weision a rannodd wahoddiad Iesu gyda mi. Helpa fi i’th wasanaethu di hefyd drwy rannu dy wahoddiad â’r bobl yn fy mywyd fy hun, y drwg a’r da fel ei gilydd, gan gredu, drwy galon agored, y bydd dy bŵer trawsnewidiol yn dechrau gweithio yn eu bywydau. Amen.

DIWRNOD 7 – CYNULLIADAU DUW

Mae euogrwydd a chywilydd yn rhwystrau pwerus, yn enwedig i’r rhai sydd yn y carchar sy’n wynebu unigrwydd ac anobaith. Mae llawer yn ei chael hi’n anodd credu bod gwahoddiad Duw yn cwrdd â ni yn union fel yr ydym ni. Mae datganiadau fel “Rydw i’n byw gyda chywilydd bob dydd” yn datgelu pwysau amlwg sy’n teimlo’n amhosibl ei godi. Ac eto, dim ond gras anhygoel Duw sy’n treiddio’r galon i ddechrau ar waith mawr o newid. Nid yw’r trawsnewid hwn yn golygu bod yn rhaid i ni ‘drwsio’ ein hunain yn gyntaf; mae’n dechrau gydag ymateb i wahoddiad personol.

Arglwydd Dduw - diolch o galon nad oes angen i ni baratoi ein hunain i ddod atat. Mae Iesu wedi gwneud popeth ar y groes. Boed i’r gwahoddiad barhau i gael ei gynnig o ddydd i ddydd ym mhob carchar yn y wlad hon, fel bod llawer, llawer mwy, yn ei glywed, yn ymateb iddo - ac yn penderfynu dod atat. Amen.

